




## CYLCHLYTHYR 4 Gaeaf 2004 - 5

e-bost: [coetirmynydd@aol.com](mailto:coetirmynydd@aol.com)  
[www.coetirmynydd.co.uk](http://www.coetirmynydd.co.uk)

### Parc Tan y Bwlch

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol ar 23 Tachwedd yn y Neuadd Goffa. Galwyd y cyfarfod hwn yn arbennig ar gyfer ystyried dyfodol Parc Tan y Bwlch. Roedd dau ddeg chwech o aelodau yn bresennol ac fe wnaethant gyfarfod â Bob Griffiths o Gydcoed.

Eglurodd Bob y gall Cydcoed ddarparu cymorth grant 100% i greu a rheoli coetir cymunedol. Ychydig iawn o gyfyngiadau sydd ar yr hyn a olygir gan 'goetir cymunedol', ond mae'n rhaid iddo fod o fudd i'r gymuned gyfan ac nid i ychydig o unigolion yn unig. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu caniatáu rhyw fath o fynediad i'r cyhoedd. Yr unig gyfyngiad wrth ddefnyddio'r ffynhonnell hon o arian ar gyfer Plas Tan y Bwlch yw na ellir defnyddio'r arian ar gyfer tir 'amaethyddol' – yn ein hachos ni, gallai hyn olygu bod rhaid i ni aros am dair blynedd wedi i'r denantiaeth bori ddod i ben.



Roedd pawb yn cytuno nad oedd gadael y goedwig fel y mae hi yn opsiwn gan fod y coed yn cael eu chwythu i lawr a bod mynediad agored i ddefaid yn atal aildyfiant, ac felly bydd y goedwig yn parhau i ddirywio. Mae'r draeniau hefyd mewn cyflwr gwael iawn a cheir llifogydd rheolaidd yn yr eiddo ar Tan y Bwlch. Plannwyd y coed fel rhan integrol o dirwedd y pentref i ddarparu cysgod i'r tai ac nid yn benodol er mwyn cynhyrchu pren. Y farn gyffredin yn y cyfarfod oedd bod gan y trigolion feddwl mawr o'r goedwig gan fod y coed yn darparu cysgod, a'i bod hefyd yn ardal

heddychlon a thawel i hamddena a chwarae. Gan fod Stad y Penrhyn yn bwriadu gwerthu'r tir yn yr ardal hon, mae pryder y bydd y tir yn cael ei brynu'n breifat a gallai hyn olygu mai ychydig iawn o ddylanwad y byddai gan y gymuned ar ei ddyfodol, os o gwbl.

**Pleidleisiodd y cyfarfod a phasio'n unfrydol y cynnig canlynol: y dylai'r ardal a elwir yn Parc Tan y Bwlch fod o dan berchnogaeth y gymuned ac y bydd Coetir Mynydd fel cynrychiolwyr y gymuned yn ceisio prynu'r tir gan Stad y Penrhyn.**

Unwaith y bydd y tir wedi'i brynu cytunwyd y bydd angen gwneud y gwaith canlynol:

- Atgyweirio draeniau
- Ffensio
- Plannu coed
- Mynediad i'r Cyhoedd

Mae'r pwynt olaf yn codi cryn bryder ymhlith nifer o'r trigolion gan eu bod yn ofni y gallai effeithio ar ddiogelwch yr eiddo ar Tan y Bwlch, tarfu ar y bywyd gwyllt a chynyddu sŵn a chreu aflonyddwch mewn ardal sy'n cael ei gwerthfawrogi am ei llongyddwch. Mae'r rhain i gyd yn faterion pwysig ond roedd y cyfarfod yn ffyddiog y byddai cynllunio gofalus ac ymgynghori yn ei gwneud hi'n bosibl i ddarparu mynediad a fydd yn cadw at y gwerthoedd pwysig hyn gymaint ag y bo modd.

Pe baem yn dymuno manteisio ar arian Cydcoed mae gennym tua chwe mis i ddarparu cynnig prosiect. Er nad yw'r cynnig yn ddogfen hir mae'n rhaid i ni nodi faint o arian yn union sydd ei eisiau arnom, sy'n golygu paratoi cynlluniau eithaf manwl o'r gwaith a fydd angen ei wneud. Cytunwyd y dylid dechrau'r broses drwy fapio'r ardal a chanolbwyntio ar leoliad a chyflwr y draeniau a choed. Yna, byddem yn cynnal cyfarfodydd ar y safle i drafod opsiynau a chynllun y plannu a'r mynediadau.

Bydd mapiau sylfaenol ar raddfa fawr yn cael eu dosbarthu i drigolion Tan y Bwlch ar gyfer mapio.

Croesewir sylwadau ar y cynigion ar gyfer Parc Tan y Bwlch gan aelodau a'r gymuned gyfan.

## Mynediad i Barc yr Ynys



Mae giât bren newydd wedi cael ei gosod o Lôn Ynys i Barc yr Ynys. Llauer o ddiolch i *First Hydro* am ddarparu mynediad o safon uchel i'n heiddo. Rydym yn dal i geisio penderfynu ar gynllun mainc syml ond mae'r defnyddiau wedi cael eu prynu gan ddefnyddio'r hyn a oedd yn weddill o'r grant *First Hydro*. Bydd gwaith pellach yn cynnwys gosod y fainc a chreu llwybr troed i'w chysylltu gyda'r giât. Bydd angen gwirfoddolwyr i'n helpu gyda hyn yn y Gwanwyn pan fydd hi'n sychach, gobeithio.

## Cynllun Rheoli Parc yr Ocar

Cymeradwywyd y cynllun rheoli gan y Comisiwn Coedwigaeth ac arwyddwyd y cytundeb mewn perthynas â'r Cynllun Grant Coetir ar gyfer Parc yr Ocar ym mis Ionawr. Dechreuwyd ar y gwaith o dan y cynllun rheoli ac 'rydym wedi cyflawni'r isod hyd yma:

- Archwiliad diogelwch coed (gwaith i'w wneud gydag arian Cydcoed)
- Gosod 4 gris derw hollt gan ddefnyddio pren a chwythwyd gan y gwynt ar y safle
- Codi ffens llechen 5m wrth ochr y bont yn Yr Ocar

Mae'r gwaith a gynlluniwyd yn cynnwys codi arwyddion Coetir Mynydd wrth y prif fynedfeydd i'r coed.



## Diogelwch Argae

Bydd arwyddbyst yn cael eu gosod ar gyfer yr argae a'r ffens ddiogelwch sydd yno eisoes. Byddant yn dweud 'Perygl. Dŵr dwfn a llaid. Cadwch allan neu byddwch yn boddi'. Bydd y pedwar arwyddbost wedi cael eu gosod erbyn diwedd Ionawr.

Mae ffens ddiogelwch 5m o hyd wedi cael ei harchebu a bydd yn cael ei gosod ar ben y wal wrth ymyl yr argae. Unwaith y bydd pawb yn hapus gyda'r cynllun, ymddangosiad y ffens ayb., bydd ffens ddiogelwch yn cael ei gosod ar ben wal wrth ochr y ffordd er mwyn rhwystro mynediad i'r argae a'r gronfa ddŵr o'r ffordd.

## Ffens Cadw Stoc Parc yr Ocar

Rydym yn paratoi cynnig i osod ffens codi stoc Parc yr Ocar a Pharc yr Ynys drwy adfer y ffiniau traddodiadol yn hytrach na defnyddio ffens wifrau. Y bwriad yw penodi contractwr codi waliau lleol i fod yn gyfrifol am atgyweirio'r ffiniau a defnyddio hyn fel cyfle i ddarparu hyfforddiant i gynorthwydd, gwirfoddolwyr lleol, pobl ifanc a dosbarthiadau meistr i aelodau o Goetir Mynydd.

Mae gennym gostau bras ar gyfer adfer ac atgyweirio'r waliau cerrig sy'n bodoli eisoes. Mae Bob Griffiths wedi nodi y byddai hyn yn brosiect addas a byddwn yn gwneud cais am arian Cydcoed ym mis Ebrill.

## Cyfarfod cyffredinol blynyddol

Cynhaliwyd y cyfarfod ar 1 Hydref gyda 30 o bobl yn bresennol. Mae'r adroddiad a'r cyfrifon a gyflwynwyd yn y cyfarfod ar gael ar y wefan <http://www.coetirmynydd.co.uk/documents>.

Mae tâl yr aelodau gwreiddiol yn ddyledus erbyn 1 Hydref 2004. O'r oddeutu 100 o aelodau gwreiddiol dim ond 60 sydd wedi talu ar gyfer 2004-5 hyd yn hyn. A fydddech mor garedig â thalu eich £5 (£10 i deuluoedd) i Mike Yates os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes, sieciau'n daladwy i Coetir Mynydd.

## Cysylltiadau

Einir Frodsham (Llywydd) Gors yr Eira 601353  
Jenny Wong (Ysgrifennydd) Ynys Uchaf 602124  
Mike Yates (Trysorydd) The Vestry 601508  
Mark Goddard (Prosiectau) Hirdir Uchaf 600237

E-bost: [CoetirMynydd@aol.com](mailto:CoetirMynydd@aol.com)